

Cyngor Abertawe



Adroddiad Blynyddol Y Gymraeg 2019 - 2020

CYNNWYS

1. Cyflwyniad a Chefndir.....
2. Trosolwg o 2019-20
3. Gweithredu'r safonau

 - Safonau Cyflwyno Gwasanaethau
 - Safonau Lluo Polisiau
 - Safonau Gweithredol
 - Safonau Cadw Cofnodion

4. Addysg Gymraeg.....

ATODIADAU

- a) Monitro Cyngor Abertawe yn 2019-2020 gan Gomisiynydd y Gymraeg.
- b) Cwynion ynghylch cydymffurfio â'r safonau

1. Cyflwyniad a Chefndir

Dyma'r pedwerydd Adroddiad Blynyddol ers i'r safonau ddod i rym. Mae'n cynnig trosolwg o'r gweithgarwch dros gyfnod o 12 mis hyd at 31 Mawrth 2020, ac arfarniad o sefyllfa'r awdurdod mewn perthynas â gweithredu'r safonau. Mae'r atodiadau'n cynnig rhywfaint o fanylion parthed rhoi'r safonau ar waith yn benodol yn Abertawe.

Ers 30 Mawrth 2016, mae'n ddyletswydd statudol ar yr holl awdurdodau lleol yng Nghymru i gydymffurfio â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a Safonau'r Gymraeg a osodwyd gan y Mesur drwy is-ddeddfwriaeth (Rheoliadau Safonau'r Gymraeg).

Rhestrir y safonau a roddwyd i Ddinas a Sir Abertawe mewn hysbysiad cydymffurfio – Is adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Mae copi o'r safonau hyn ar gael ar wefan gyhoeddus y cyngor yn: <https://www.swansea.gov.uk/cymraeg> a <https://www.abertawe.gov.uk/cymraeg>

Yr hysbysiad hwn, y cytunwyd arno â Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg, yw'r ddogfen gyfredol sy'n llywodraethu ein cydymffurfriad.

Bwriad y safonau yw:

- sicrhau nad yw sefydliadau'n trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; a
- hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg (a'i gwneud yn haws i bobl ei defnyddio yn eu bywyd pob dydd).

Nod y safonau yw:

- ei gwneud hi'n eglur i sefydliadau beth yw eu dyletswyddau o ran y Gymraeg
- ei gwneud hi'n fwy eglur i siaradwyr Cymraeg pa wasanaethau y gallant ddisgwyl eu derbyn yn Gymraeg
- sicrhau mwy o gysondeb o ran gwasanaethau Cymraeg a gwella eu hansawdd.

Mae'n ofynnol i Abertawe gydymffurfio â **163 o safonau ar draws 5 categori** fel y dangosir yn nhabl 1 isod:

Tabl 1: Safonau i Gyngor Abertawe gydymffurfio â hwy

Cyngor Abertawe		
	Categoriâu	Nifer o safonau
1	Safonau Cyflwyno Gwasanaethau	86
2	Safonau Llunio Polisiâu	16
3	Safonau Gweithredol	51
4	Safonau Hyrwyddol	2
5	Safonau Cadw Cofnodion	8
	Total	163

2. Trosolwg o 2019-2020

Yn gyffredinol, mae'r Cyngor wedi parhau'n benderfynol o weithredu safonau'r Gymraeg yn ystod y flwyddyn ac mae'r adborth cyffredinol yn dangos bod swyddogion yn fwy hyddysg ynghylch gofynion y Safonau.

Mae'r Awdurdod wedi parhau'n ymrwymedig i hyrwyddo'r iaith ac ynghyd â'r digwyddiadau Dydd Gŵyl Dewi arferol, rydym wedi gwneud mwy o waith yn fewnol i greu llwyfannau sy'n ei gwneud yn bosibl i siaradwyr Cymraeg a dysgwyr Cymraeg o fewn y Cyngor, gael cyfle i ddefnyddio'r iaith yn anffurfiol.

Mae'r gwasanaeth Cymraeg ar brif rifau ffôn y Cyngor yn parhau i fod yn boblogaidd ar gyfer cysylltu â'r awdurdod dros y ffôn, a llawer o aelodau'r cyhoedd yn cyfarch ein hymgyngorwr wrth eu henwau cyntaf a braf iawn gweld y berthynas hon yn datblygu.

Y flaenoriaeth o hyd yw parhau i ganolbwyntio ar safonau ynghylch Cyflwyno Gwasanaethau gan mai'r rhain sydd fwyaf o ran nifer (86) yn ogystal â bod y rhai mwyaf gweladwy i'r cyhoedd. Mae gwaith hefyd yn mynd yn ei flaen ar y Safonau Gweithredol, yn enwedig fel y maent yn berthnasol i'r gofynion mewn perthynas â gweithlu'r awdurdod.

3. Gweithredu'r Safonau

Mae'r cyfrifoldeb am gydymffurfiaeth yn parhau i orffwys gyda'r tîm rheoli corfforaethol a phenaethiaid gwasanaeth sy'n gweithredu eu gweithdrefnau lleol eu hunain ac mae gan bob maes gwasanaeth Hyrwyddwr y Gymraeg yn brif sianel ar gyfer gwybodaeth (fewnol ac allanol) sy'n berthnasol i'w meysydd gwaith a'u harferion.

Caiff Safonau'r Gymraeg, yr Uned Gyfieithu a'r pwynt cyswllt cyntaf dwyieithog ar gyfer llawer o wasanaethau eu rheoli gan Wasanaethau Cwsmeriaid ac mae llawer o unigolion yn y tîm sydd bellach yn gallu cynnig cyngor a chydymffurfiaeth â'r Safonau.

Oherwydd Covid19, rydym yn disgwyl Adroddiad Sicrwydd Comisiynydd y Gymraeg 2019/20 eleni a gaiff ei lansio ar 15.9.20. Yn y cyfamser, mae'r Awdurdod wedi derbyn y canlyniadau gwaith monitro Comisiynydd Iaith Cymru yn ystod 2019-20 yn **Atodiad A**.

Yr Uned Gyfieithu

Mae'r ffyrdd newydd o weithio a gyflwynwyd y llynedd yn prysur ennill eu plwyf. Mae defnyddio amrywiaeth o gyfieithwyr mewnol ac allanol, wedi galluogi'r gwasanaeth i gynnig gwasanaethau cyfieithu Cymraeg yn fwy amserol ac erbyn hyn rydym yn bodloni terfynau amser yn gyson sy'n helpu'r gwasanaethau i fodloni eu Safonau Iaith Gymraeg.

Rydym hefyd wedi bod yn gweithio ar brosiect awtomeiddio yr ydym yn gobeithio y bydd yn gweld golau dydd yn 2020/21, a fydd yn ein galluogi i ddarparu gwasanaeth mwy cost effeithiol a darparu gwasanaeth cyfieithu yn gyflymach fyth.

Mae codi ymwybyddiaeth ar lefel y Tîm Rheoli Corfforaethol ynghylch cwynion a gafwyd a gwell cynllunio a chyfathrebu a gweithio gyda gwasanaethau mewn perthynas â gofynion cyfieithu blynyddol hefyd wedi gwella ein gallu i ddarparu cyfieithiadau amserol.

Yn ystod 2019-20, cyfieithodd yr Uned Gyfieithu 1.9 miliwn o eiriau. Mae hyn yn llai na'r flwyddyn flaenorol ac mae'n amlwg bod llawer o'r gwaith cychwynol yr oedd ei angen i fodloni'r Safonau bellach wedi'i gwblhau a'n bod bellach wedi symud i ddull mwy 'busnes fel arfer' a'r angen i gyfieithu polisïau ac ati yn unig pan wneir newidiadau. Yn ychwanegol, mae gwell cyfathrebu rhwng yr uned a'r meysydd gwasanaeth wedi arwain at well dealltwriaeth o'r hyn y mae angen ei gyfieithu a hefyd mae defnydd cynyddol o ganllawiau defnyddiol ar gyfer eitemau llai yn fuddiol.

Daeth yr amser cyfieithu ar y pryd a gofnodwyd dros y flwyddyn i 28.5 awr. Gadawodd nifer o gyfieithwyr ar y pryd yr Uned yn ystod y flwyddyn ac mae llawer o ysgolion bellach yn derbyn y gwasanaeth hwn yn uniongyrchol gan Gymdeithas Cyfieithwyr Cymru.

3A. Safonau Cyflwyno Gwasanaethau

Cyfeiriadau e-bost

Mae pob cyfeiriad e-bost unigol ac adrannol ar gael yn Gymraeg a Saesneg fel y gall trigolion Cymraeg ac eraill gysylltu drwy'r cyfeiriad Cymraeg. Disgwylir i staff roi eu cyfeiriad @swansea.gov.uk a'u cyfeiriad @abertawe.gov.uk yn eu llofnod e-bost. Yn ychwanegol, mae gan holl e-byst a gaiff eu hanfon yn allanol droednodyn dwyieithog awtomataidd sy'n cynnwys:

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a byddwn yn ymdrin â gohebiaeth Gymraeg a Saesneg i'r un safonau ac amserlenni.

We welcome correspondence in Welsh and will deal with Welsh and English correspondence to the same standards and timescales.

Ffôn

Cyflwynwyd system ffôn newydd yn ystod y flwyddyn gan fod yr hen system yn methu ar adegau â darparu dewis iaith ar y pwynt cyswllt cyntaf pan oedd diffyg. Yn anffodus, o ganlyniad, collwyd y data ystadegol ar gyfer nifer y galwadau eleni, fodd bynnag, gwyddom, ar sail tystiolaeth anecdotaidd o siarad ag Ymgynghorwyr, ein bod yn parhau i dderbyn nifer o alwadau Cymraeg bob dydd.

Mwy Na Geiriau: More than Just Words:

Er bod Safonau'r Gymraeg yn berthnasol i holl feysydd gweithredu'r awdurdod, mae cyngor Abertawe hefyd yn ymrwymedig i ddatblygu Mwy na Geiriau / More than Just Words - fframwaith strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaethau Cymraeg ym meysydd iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol.

Rydym wedi sefydlu fforwm ar draws y Cyngor ar gyfer ystyried a chyflwyno hyfforddiant iaith Gymraeg a chymorth i staff wrth ddatblygu a defnyddio eu sgiliau iaith Gymraeg. Mae'r

grŵp yn hyrwyddo'r amrywiaeth eang o adnoddau dysgu sydd ar gael i staff i ddatblygu eu sgiliau, yn ogystal â'r hyfforddiant ffurfiol a gynigir.

Erbyn hyn mae gennym rwydwaith o bencampwyr Cymreig ym maes gofal cymdeithasol i oedolion sy'n hyrwyddo'r iaith Gymraeg/cynnig gweithredol, ac ansawdd y profiad a gaiff ei fyw yn ein cartrefi gofal a gwasanaethau eraill.

Mae gennym grŵp bach o gyfeillion dementia sy'n siarad Cymraeg, ac rydym wedi darparu hyfforddiant ymwybyddiaeth o ddementia i staff yn Gymraeg.

Gwnaethom enwebu gweithiwr prosiect rhyng-genhedlaeth ar gyfer un o wobrau Gofal Cymru y llynedd. Roedd y prosiect hwn yn bartneriaeth rhwng Cyngor Abertawe, ysgolion cyfrwng Cymraeg lleol a Menter Iaith Abertawe, gyda'r nod o gynorthwyo disgyblion i ymweld â chartrefi gofal i helpu eu hastudiaethau, ac ar yr un pryd, i wella ansawdd bywyd trigolion drwy rannu straeon a phrofiadau gan ddefnyddio'r Gymraeg.

Rydym wedi datblygu cynllun gweithredu atodol i'r gwasanaethau cymdeithasol, Mwy Na Geiriau, i fynd i'r afael ag unrhyw fylchau mewn cyfleoedd hyfforddi ar draws staff rheng flaen a'r gweithlu gofal cymdeithasol ehangach.

3bi Safonau Llunio Polisïau

Bydd yr holl benderfyniadau llunio polisïau yn cael eu hystyried gan Asesiad Effaith Cydraddoldeb corfforaethol y cyngor, sy'n ystyried yr effeithiau posib y gallai'r fenter eu cael ar faterion Cydraddoldeb.

Er bod hyn yn seiliedig ar ofynion Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (o dan Ddeddf Cydraddoldeb (2010)), mae ein proses AEC benodol wedi ehangu'r paramedrau i gyfeirio'n benodol at y safonau a'n rhwymedigaeth i'w bodloni. Mae canllawiau atodol yn atgyfnerthu'r gofynion hyn. Er bod dealltwriaeth o'r safonau wedi cynyddu'n gyffredinol, mae angen esboniad a chymorth ar swyddogion yn aml wrth gwblhau elfen Gymraeg AEC. Un mater cyffredin yw methu â thrafod cynigion â siaradwyr Cymraeg yn y gymuned.

Safonau Llunio Polisïau Atodol

3bii Cwynion

Ymdrinnir â chwynion am y Gymraeg a/neu gwynion a dderbynnir yn y Gymraeg am unrhyw agwedd yn ymwneud â chyflwyno gwasanaethau'n unol â pholisi cwynion corfforaethol yr awdurdod a gyhoeddir ar wefan allanol y cyngor <https://www.swansea.gov.uk/cymraeg>

Yn ystod y cyfnod adrodd rhwng 1 Ebrill 2019 a 31 Mawrth 2020 gwelwyd gostyngiad yn nifer y cwynion newydd drwy Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg, gyda 6 yn cael eu derbyn o'u cymharu ag 11 y flwyddyn flaenorol mewn perthynas â darparu gwasanaethau o dan Safonau'r Gymraeg a 5 cwyn yn uniongyrchol i'n hadran cwynion corfforaethol mewn perthynas â'r Gymraeg.

Dangosir manylion cwynion agored ynghyd â chwynion na chaewyd ar ddiwedd y cyfnod adrodd blaenorol yn y tabl yn **Atodiad A)**

Caiff cwynion sy'n parhau ar ddiwedd y cyfnod adrodd eu cynnwys yn yr adroddiad blynyddol nesaf. Mae'n anochel y bydd oedi wrth ymchwilio a phrosesu cwynion oherwydd Covid19.

3c Safonau Gweithredol

Mae Safonau Gweithredol yn ymwneud â'r defnydd o'r Gymraeg yn swyddogaethau mewnol sefydliad, gan gynnwys y berthynas rhwng yr awdurdod a'i weithwyr (gan gynnwys yn ystod recriwtio a phenodi), drwy:

- Annog a helpu staff i ddefnyddio'u sgiliau Cymraeg fel rhan o'u gwaith arferol, o ddydd i ddydd
- Darparu fframwaith cefnogol i staff er mwyn iddynt wella a datblygu eu sgiliau Cymraeg.

Fe wnaeth yr adran Adnoddau Dynol gomisiynu cyfieithiad o'r holl bolisiau a'r gweithdrefnau, yn ôl cyfarwyddwyd y safonau, ac mae'r rhain ar gael i unrhyw aelod o staff sy'n gofyn amdanynt ac maent ar gael ar wefan y Cyngor hefyd.

Mae mynediad at feddalwedd i gynorthwyo staff wrth ddefnyddio'r Gymraeg (e.e. meddalwedd gwirio sillafu a gramadeg MSOffice a chyfieithu awtomatig) ar gael fel ychwanegiad safonol.

Mae gan StaffNet adran Gymraeg <http://www.swansea.gov.uk/staffnet/welsh> sy'n cynnwys adnoddau ategol i staff sy'n defnyddio'r Gymraeg yn eu gwaith, gan gynnwys:

- Trosolwg o'r safonau, ynghyd â gwybodaeth am rôl Comisiynydd y Gymraeg
- Cwrs ymwybyddiaeth o'r Gymraeg ar-lein a ddatblygwyd i ddarparu rhywfaint o gyd-destun cymdeithasol a hanesyddol i'r Gymraeg a'i lle mewn cymdeithas fodern.
- Canllawiau hwylus sy'n cynnig arweiniad cyflym i faes penodol yn y safonau, e.e:
 - galwadau ffôn
 - e-byst
 - trefnu cyfarfodydd
 - dylunio arwyddion
 - gwasanaethau cyfieithu i'r Gymraeg
- Cyfieithiadau Safonol sy'n chwiliadwy ar Staffnet i helpu i gynhyrchu gwybodaeth safonol sydd â symiau bach o ddata amrywiol, er enghraifft:
 - dyddiadau, amserau, lleoliadau
 - negeseuon awtomatig (allan o'r swyddfa)
 - arwyddion safonol *ad hoc*

- Arweiniad i gyfryngau cymdeithasol dwyieithog - rheolau ar gyfer rhoi cyhoeddusrwydd i ddiwyddiadau a gwybodaeth arall ar Twitter, Facebook a chyfryngau cymdeithasol eraill.
- Manylion gwersi Cymraeg a sesiynau ymarfer, gan gynnwys cyrsiau allanol ar wefan <http://www.swansea.ac.uk/learnwelsh/>
- Diwyddiadau cymdeithasol allanol rheolaidd drwy wefan Menter Iaith Abertawe
- Hyfforddiant yn y Gymraeg i staff - i staff rheng flaen i ddechrau mewn adrannau lle nodwyd bod diffyg siaradwyr Cymraeg.
- Manylion hyrwyddwyr y Gymraeg mewn meysydd gwasanaeth

Defnydd staff o adnoddau Cymraeg ar Staffnet

Bu cynnydd enfawr yn nifer y tudalennau a wylwyd yn ystod y flwyddyn, gan gynyddu i 21,519 o dudalennau a wylwyd, i fyny o 8467 o dudalennau a wylwyd y flwyddyn flaenorol, gan amlygu diddordeb mewnol ac ymrwymiad i ddatblygu'r iaith a sicrhau bod y Safonau'n cael eu bodloni.

Gellir gweld y bum dudalen fwyaf poblogaidd yn y tabl isod:

Tudalen ar Staffnet (1 Ebrill 2019 - 31 Mawrth 2020)	Tudalennau a wylwyd	Math
Staffnet Abertawe – Cyfieithu rhywbeth i'r Gymraeg	13841	Cais
Staffnet Abertawe – Ffurflen gais am gyfieithiad Cymraeg	2267	Cais
Staffnet Abertawe – Gwersi Cymraeg i staff	1078	Gwybodaeth
Staffnet Abertawe – Cais am gyfieithiad Cymraeg	842	Cais
Staffnet Abertawe – Iaith Gymraeg	738	Gwybodaeth
Staffnet Abertawe – Gwneud yn siŵr bod eich llythyrau a'ch negeseuon e-bost yn cydymffurfio â safonau'r Gymraeg	473	Newyddion
Staffnet Abertawe – Grŵp sgwrs staff y Gymraeg	330	Gwybodaeth
Staffnet Abertawe – Ymadroddion a geiriau Cymraeg	276	Gwybodaeth
Staffnet Abertawe - Ymadroddion Cymraeg - allan o'r swyddfa, negeseuon e-bost a llythyrau	215	Gwybodaeth
Staffnet Abertawe - Safonau'r Gymraeg	194	Gwybodaeth

Roedd hefyd:

- 1122 o chwiliadau ar Staffnet e.e. ar gyfer 'Cyfieithu rhywbeth i'r Gymraeg' a'r 'Gymraeg'
- 151 clic ar ddolenni at adnoddau Cymraeg allanol megis saysomethinginwelsh.com a learncymraeg.cymru

Staff a Sgiliau Cymraeg

Gellir gweld data a ddarparwyd gan staff (o 31 Mawrth 2020) ac a gedwir ar y system yn y tablau canlynol:

	Yn deall Cymraeg llafar	Yn siarad Cymraeg	Yn darllen Cymraeg	Yn ysgrifennu Cymraeg	Yn dysgu Cymraeg	Yn barod i'w defnyddio fel rhan o'ch gwaith
Ydy	238	181	195	154	168	351
Nac ydy	37	29	30	29	35	251
Heb Nodi	1347	1412	1397	1439	1419	969
Wedi dewis peidio â dweud	0	0	0	0	0	51
Cyfanswm	1622	1622	1622	1622	1622	1622

Swyddi Newydd a Gwag

Mae'r tabl isod yn rhoi crynodeb o nifer y swyddi newydd neu wag a hysbysebwyd gan yr awdurdod ac mae'n dangos lefelau'r sgiliau Cymraeg y mae eu hangen ar gyfer y rôl. Lefel 1 yw'r lefel fwyaf sylfaenol o ddealltwriaeth a Lefel 5 yw'r un fwyaf datblygedig.

Lefel y sgiliau Cymraeg sy'n ofynnol	Nifer y swyddi newydd a gwag a hysbysebwyd
Lefel 1	327
Lefel 2	0
Lefel 3	3
Level 5	0
Dim Angen	44
Dymunol	54
I'w Ddysgu	0

Hyfforddiant ar gyfer Staff

Hyfforddi'r Staff

Sefydlwyd Grŵp Cymorth Hyfforddiant Iaith Gymraeg, sy'n cyfarfod yn fisol gyda'r nod o wella cyfleoedd hyfforddi a dysgu i ddysgu neu wella sgiliau Cymraeg

O ran hyfforddiant ffurfiol, yn 2019/20 roedd:

- 15 o gyfranogwyr ar Lefel 1 Mynediad
- 9 cyfranogwr ar Lefel 2 Mynediad
- 0 ar lefel Sylfaen.

Ar gyfer 2020/21, yn amodol ar niferoedd digonol, y bwriad yw parhau i redeg cyrsiau Mynediad Lefel 1, Lefel 2 a Sylfaen ac mae'n rhaid i mi gynnal cyrsiau mewn partneriaeth â sefydliadau eraill.

Y Cwtsh Cymraeg

Gyda phwyslais cynyddol ar weithio "ystwyth", datblygwyd adran ystwyth newydd ym mhob un o brif adeiladau'r Cyngor, sydd â man dynodedig i staff sy'n siarad Cymraeg eistedd

gyda'i gilydd os dymunant. Mae hyn yn eu hannog i siarad yn Gymraeg bob dydd a hefyd yn cynorthwyo dysgwyr Cymraeg i ymarfer. Enw'r man yw'r 'Cwtsh Cymraeg'.

Yn ogystal, gan fod y Cyngor wedi symud i O365, mae gennym grŵp o fewn i Teams o'r enw 'Cwtsh – Ysgrifennu yn Gymraeg' er mwyn i'r rhai sy'n llai hyderus wrth ysgrifennu'r iaith, allu ymarfer mewn lleoliad anffurfiol.

Cynllun Mentora

Mae cynllun mentora hefyd wedi'i sefydlu, lle caiff dysgwr Cymraeg ei baru â siaradwr Cymraeg rhugl ac y byddant yn cyfarfod yn wythnosol/misol i loywi sgiliau iaith y dysgwyr.

Cyfathrebu â'r Staff

Negeseuon a gyhoeddir yn ganolog ac a anfonir at grwpiau o staff yn Saesneg (fel y caniateir o dan y safonau).

Cyfarfodydd

Yn ystod cyfarfodydd mewnol, yn enwedig rhai o natur dra ffurfiol, mae gwasanaeth cyfieithu ar y pryd wedi'i drefnu ymlaen llaw ar gael i'r bobl sy'n bresennol sydd am gyfrannu yn Gymraeg.

Wrth gwrrdd ag asiantaethau allanol sydd am drafod â'r awdurdod drwy gyfrwng y Gymraeg, lle bynnag y bo modd (a chyda rhybudd ymlaen llaw), byddai siaradwyr Cymraeg cymwys yn mynd i'r cyfarfod ar ran yr awdurdod er mwyn gallu cynnal cymaint o'r cyfarfod â phosib yn Gymraeg.

Amlygrwydd

Mae'r holl fentrau uchod wedi cynyddu a chryfhau amlygrwydd yr iaith ar draws y mwyafrif o weithrediadau meysydd, gan annog ei defnydd yn anffurfiol ac mewn cyd-destun gwaith.

3.d Addysg Gymraeg

Mae datblygu'r Gymraeg yn yr ardal a thu hwnt yn y dyfodol yn gysylltiedig mewn ffordd sylfaenol ag Addysg Gymraeg, ac ymdrinnir â'r agwedd hon yn benodol yng Nghynllun Addysg Gymraeg y cyngor

Mae 11 ysgol gynradd Gymraeg sy'n bwydo dwy ysgol uwchradd – Ysgol Gyfun Gŵyr ac Ysgol Gyfun Bryn Tawe.

Caiff nifer y disgyblion sy'n mynychu sefydliadau addysg Gymraeg yn y tri grŵp oedran, a chanrannau cyffredinol pob grŵp oedran y mae'r ffigurau hyn yn eu cynrychioli, eu hamlinellu yn y tablau isod. Maent yn dangos bod nifer y myfyrwyr sy'n derbyn addysg Gymraeg a'r ganran gyffredinol yn parhau i gynyddu.

2019-2020

Cofrestrau ysgolion	Cyfanswm ffrydiau Cymraeg a Saesneg	Nifer y disgyblion mewn darpariaeth Gymraeg	Canran y disgyblion mewn ffrydiau Cymraeg
Cynradd	22190	3519	15.9%
B7-11	12331	1503	12.2%
B12-Y13	1358	273	20.1%
Cyfanswm	35879	5295	14.8%

2018-2019

Cofrestrau ysgolion	Cyfanswm ffrydiau Cymraeg a Saesneg	Nifer y disgyblion mewn darpariaeth Gymraeg	Canran y disgyblion mewn ffrydiau Cymraeg
Cynradd	22147	3306	14.9%
Y7-11	12246	1503	12.3%
Y12-Y13	1318	273	20.7%
Cyfanswm	35711	5082	14.2%

2017-2018

Cofrestrau ysgolion	Cyfanswm ffrydiau Cymraeg a Saesneg	Nifer y disgyblion mewn darpariaeth Gymraeg	Canran y disgyblion mewn ffrydiau Cymraeg
Cynradd	22383	3271	14.6%
Y7-11	12210	1428	11.7%
Y12-Y13	1317	280	21.3%
Cyfanswm	35910	4979	13.9%

Mewn TGAU Cymraeg Iaith Gyntaf, caiff dros 78.1% o fyfyrwyr yn 2019 raddau A*-C, ac mae'r niferoedd sy'n mynd i mewn i'r pwnc hwn wedi cynyddu'n raddol yn y saith mlynedd hyd at 2019.

Mewn TGAU Cymraeg Ail Iaith (cwrw llawn) caiff dros 54.8% yn 2019 raddau A*-C ac mae'r niferoedd sy'n dechrau'r pwnc wedi cynyddu yn ystod y saith mlynedd er 2012 o 239 o ymgeiswyr i 1717 o ymgeiswyr yn 2019. Mae'r cynnydd yn y ceisiadau yn rhannol oherwydd tynnu yn ôl yr opsiwn cwrw byr yn y pwnc hwn, a phob ymgeisydd yn dilyn cwrw llawn o 2019 ymlaen.

Mae perfformiad yn y Gymraeg hefyd yn gryf yng nghyfnodau allweddol 2 a 3.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae canran y disgyblion ym mlwyddyn 6 sy'n cyrraedd lefel 4 neu'n uwch mewn Cymraeg Iaith Gyntaf wedi gwella o 91.2% yn 2013 i 93.8% yn 2019.

Yng nghyfnod allweddol 3, mae canran y disgyblion ym mlwyddyn 9 sy'n cyrraedd lefel 5 neu'n uwch mewn Cymraeg Iaith Gyntaf wedi gwella o 87.6% yn 2013 i 95.6% yn 2019.

At ei gilydd, mae'r Gymraeg yn parhau i berfformio'n dda yn bwnc yn Abertawe.

3dd Safonau Cadw Cofnodion

Mae'r safonau hyn yn ymwneud â sicrhau bod bod yr awdurdod yn cydymffurfio â'r safonau wrth ymdrin â data, ei gadw ac adrodd amdano, i ddangos ei fod yn cydymffurfio â'r safonau. Mae hyn yn cynnwys llunio'r adroddiad blynyddol hwn.

Atodiad B) Cwynion ynghylch cydymffurfio â safonau 2019-2020

Cyf	Cwyn	Dyddiad a dderbyniwyd	Ymateb	Gweithredu Diwethaf	Statws
CSG352	E-bost Cymraeg wedi ei anfon, ni dderbyniwyd ymateb	27/6/2018		Atgoffwyd yr holl staff am y gofynion o dan y Safonau	Wedi cau
CSG470	Dogfen Ymgynghori Ysgol Gynradd Felindre	11/12/2018			Wedi cau
CSG482	Nid yw'r Porth Cynllunio yn gweithredu'n llawn yn Gymraeg	09/01/2019		Y Cyngor i ymateb gyda thystiolaeth bellach erbyn 2/9/20	Parhaus
CSG484	Dim ond un person ar y llinell Gymraeg, galwad heb ei hateb yn y pwynt cyswllt cyntaf a derbyniwyd llythyrau Saesneg	10/01/2019		Newidiadau wedi eu gwneud a'r prosesau wedi eu diweddarau	Wedi cau
CSG499	Ymateb i e-bost Cymraeg yn Saesneg	22/03/2019		Camau wedi eu cwblhau	Wedi cau
CSG521	Materion ynghylch ymweliad i siarad yng nghyfarfod y Cabinet yn erbyn cau ysgolion	22/3/2019		Hysbysiad o benderfyniad wedi ei dderbyn. Mae rhai camau dilynol wedi'u gohirio ar hyn o bryd oherwydd Covid.	Parhaus
CGS540	Opsiwn Iaith Gymraeg ddim ar gael ar 01792 636000 ar 29/4/19	29/4/2019		System ffôn newydd wedi ei gosod a phroses parhad busnes ar waith ar gyfer unrhyw ddiffygion posibl	Wedi cau
CSG578	Hysbysiad ar Faes Parcio	19/6/2019		Hysbysiad o benderfyniad wedi	Parhaus

	Neuadd Brangwyn ac Apêl Tocyn Parcio			ei dderbyn. Cyfarfod i'w drefnu gyda Pharcio – wedi ei ohirio ar hyn o bryd oherwydd Covid.	
CSG625	Instagram	30/8/2019		Hysbysiad o benderfyniad wedi ei dderbyn. Adolygiad o gyfrifon cyfryngau cymdeithasol wedi cychwyn – wedi ei ohirio ar hyn o bryd oherwydd Covid	Parhaus
CSG662	Apêl Tocynnau Parcio	29/10/2019		Hysbysiad o benderfyniad wedi ei dderbyn. Cyfarfod i'w drefnu gyda Pharcio – wedi ei ohirio ar hyn o bryd oherwydd	Parhaus
CSG672	Llythyr Gorfodi'r Dreth Gyngor	23/12/2019		Disgwyl cylch gorchwyl terfynol	Parhaus
CSG697	Gwaredu Ysgol Gynradd Gymraeg Felindre	11/3/2020		Y Cyngor i ddarparu tystiolaeth bellach erbyn 30/9/20	Parhaus

**Atodiad A) Canlyniadau gwaith monitro Comisiynydd y Gymraeg 2019-20:
Cyngor Abertawe**

Perfformiad Cyngor Abertawe	Perfformiad cyfartalog y sampl o sefydliadau
<p>Gohebiaeth</p> <ul style="list-style-type: none">○ Derbyniwyd ymateb yn Gymraeg i'r tri darn o ohebiaeth Gymraeg○ Darparwyd deunydd ychwanegol (yn Gymraeg) i ddau o'r tri darn o ohebiaeth Gymraeg○ Roedd y tri ymateb i ohebiaeth Gymraeg yn cynnwys datganiad yn croesawu gohebiaeth Gymraeg	<ul style="list-style-type: none">○ Derbyniodd 73% o ohebiaeth Gymraeg ymateb (mewn unrhyw iaith).○ Roedd 92% o'r ymatebion i ohebiaeth Gymraeg yn Gymraeg.○ Darparwyd deunydd ychwanegol gyda'r ymateb i ohebiaeth Gymraeg ym 49% o'r achosion.○ Roedd ymatebion i ohebiaeth Gymraeg a Saesneg yn cynnwys datganiad yn croesawu gohebiaeth Gymraeg yn 36% o'r achosion.

<p>Galwadau ffôn</p> <ul style="list-style-type: none"> ○ Gwnaethpwyd tair galwad ffôn i 01792 636000, rhwng mis Mehefin 2019 a mis Ionawr 2020 ○ Roedd opsiynau awtomatig ar gael yn Gymraeg yn ystod galwadau 2 a 3 ○ Cafwyd cynnig rhagweithiol o wasanaeth Cymraeg ar ddechrau'r alwad yn ystod galwadau 2 a 3 ○ Llwyddodd y Cyngor ddelio â galwadau 2 a 3 yn Gymraeg yn eu cyfanrwydd a darparu atebion cyflawn i'r ymholiadau, ond nid yn ystod galwad 1 	<ul style="list-style-type: none"> ○ 90% o opsiynau awtomatig ffôn yn Gymraeg. ○ Cafwyd cynnig rhagweithiol o wasanaeth Cymraeg ar ddechrau'r alwad yn 67% o'r achosion. ○ Ymdriniwyd yn llwyddiannus â 55% o alwadau yn Gymraeg.
<p>Ffurflenni</p> <ul style="list-style-type: none"> ○ 3/3 ar gael yn gyflawn yn Gymraeg 	<ul style="list-style-type: none"> ○ 78% o'r ffurflenni oedd yn destun i'r arolwg oedd ar gael yn gyflawn yn Gymraeg. ○ 19% o'r ffurflenni oedd yn destun i'r arolwg oedd yn datgan bod y ddogfen hefyd ar gael yn Gymraeg.
<p>Datganiadau i'r wasg</p> <ul style="list-style-type: none"> ○ 1/3 ar gael yn gyflawn yn Gymraeg 	<ul style="list-style-type: none"> ○ 82% o'r datganiadau i'r wasg oedd yn destun i'r arolwg oedd ar gael yn gyflawn yn Gymraeg. ○ 22% o'r datganiadau i'r wasg oedd yn stun i'r arolwg oedd yn datgan bod y ddogfen hefyd ar gael yn Gymraeg.

<p>Llyfryn/pamffled/taflen/cerdyn</p> <ul style="list-style-type: none"> 2/3 ar gael yn gyflawn yn Gymraeg 	<ul style="list-style-type: none"> 68% o'r enghreifftiau oedd yn destun i'r arolwg oedd ar gael yn gyflawn yn Gymraeg. 7% o'r enghreifftiau oedd yn destun i'r arolwg oedd yn datgan bod y ddogfen hefyd ar gael yn Gymraeg.
<p>Hunaniaeth gorfforaethol</p> <ul style="list-style-type: none"> 3/3 (enghraifft) yn ymddangos yn Gymraeg 	<ul style="list-style-type: none"> 88% o'r enghreifftiau o hunaniaeth gorfforaethol oedd yn destun i'r arolwg oedd yn ymddangos yn Gymraeg.
<p>Tudalennau gwefan y Cyngor</p> <ul style="list-style-type: none"> 30/30 ar gael yn gyflawn yn Gymraeg 	<ul style="list-style-type: none"> 81% o'r tudalennau gwefan oedd yn destun i'r arolwg oedd ar gael yn gyflawn yn Gymraeg.
<p>Facebook a Twitter</p> <ul style="list-style-type: none"> Facebook: 10/15 o'r negeseuon ar gael yn gyflawn yn Gymraeg Twitter: 15/15 o'r <i>tweets</i> ar gael yn gyflawn yn Gymraeg 	<ul style="list-style-type: none"> 74% o'r negeseuon Facebook oedd yn destun i'r arolwg oedd ar gael yn Gymraeg. 70% o'r <i>tweets</i> oedd yn destun i'r arolwg oedd ar gael yn Gymraeg.

Swyddi

- Arolygwyd 9 o swyddi gwag/newydd yn ystod y cyfnod dan sylw
- Roedd y Gymraeg wedi ei chrybwyll yn 8 ohonyn nhw
- Nid oedd y Gymraeg yn sgil hanfodol ar gyfer unrhyw un o'r 9 swydd
- Roedd y Gymraeg yn sgil dymunol ar gyfer 6 ohonyn nhw
- Nodwyd nad oedd angen unrhyw sgiliau Cymraeg yn y 2 arall
- Roedd pob un o'r swyddi a arolygwyd wedi eu hysbysebu yn gyflawn yn Gymraeg
- Nid oedd unrhyw un o'r swyddi'n cynnwys datganiad yn croesawu ceisiadau yn Gymraeg

- 82% o'r hysbysebion swyddi oedd yn destun i'r arolwg oedd yn cynnwys categori angen sgiliau Cymraeg.
- Roedd y Gymraeg yn cael ei hystyried yn 'hanfodol' ar gyfer 17% o'r swyddi oedd yn destun i'r arolwg.
- 47% o'r hysbysebion swyddi oedd ar gael yn Gymraeg.

Derbynfeydd

- Ymwelwyd â derbynfa y Ganolfan Ddinesig yn Abertawe ddwywaith yn ystod y cyfnod adrodd
- Cyfarchwyd yr ymwelydd yn Saesneg bob tro
- Ni lwyddodd staff y dderbynfa i ymdrin ag unrhyw un o'r ymholiadau Cymraeg yn Gymraeg
- Roedd y sefydliad wedi arddangos arwydd yn ardal y

- Cyfarchwyd yr ymwelwyr yn Gymraeg neu'n ddwyieithog yn ystod 37% o'r ymweliadau.
- Ymdriniwyd yn llwyddiannus â 46% o'r ymweliadau yn Gymraeg.
- Roedd arwydd yn datgan bod croeso i ymwelwyr ddefnyddio'r Gymraeg ym 51% o'r achosion.
- Roedd pob aelod o staff y dderbynfa a oedd yn siarad

<p>dderbynfa sy'n datgan (yn Gymraeg) fod croeso i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg yno</p>	<p>Cymraeg yn gwisgo bathodyn yn nodi hynny yn 36% o achosion.</p>
<p>Peiriannau hunanwasanaeth</p> <ul style="list-style-type: none"> ○ Yn ystod yr ymweliadau â'r Ganolfan Ddinesig, arolygwyd dau beiriant hunanwasanaeth (un yn y dderbynfa a'r llall yn y maes parcio) ○ Roedd y ddau beiriant yn gweithio'n llawn yn Gymraeg ac roedd modd defnyddio'r ddau beiriant yn Gymraeg yn yr un modd ac y byddai rhywun yn eu defnyddio'n Saesneg 	<ul style="list-style-type: none"> ○ Iaith ddiodyn 25% o'r peiriannau hunanwasanaeth oedd yn destun i'r arolwg oedd Cymraeg neu ddwyieithog. ○ 75% o beiriannau hunanwasanaeth yn gweithio'n llawn yn Gymraeg. ○ 75% o beiriannau hunanwasanaeth yn cynnig gwasanaeth Cymraeg yn rhagweithiol.
<p>Arwyddion</p> <ul style="list-style-type: none"> ○ Yn ystod yr ymweliadau â'r Ganolfan Ddinesig, arolygwyd 6 o arwyddion y Cyngor ○ Roedd yr holl destun ar y 6 arwydd ar gael yn Gymraeg ac wedi'i osod fel mai hwnnw sy'n debygol o gael ei ddarllen yn gyntaf ○ Roedd yr holl destun Cymraeg yn gywir o ran ystyr a mynegiant 	<ul style="list-style-type: none"> ○ 89% o'r arwyddion oedd yn destun i'r arolwg oedd â'r holl destun yn Gymraeg. ○ Testun 84% o'r arwyddion wedi'i osod fel mai'r Gymraeg sy'n debygol o gael ei darllen yn gyntaf. ○ Testun 90% o'r arwyddion yn gywir o ran ystyr a mynegiant.

